

Safonau Gwasanaeth Addasiadau Tai Conwy

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio safon y gwasanaeth y gallwch chi ei ddisgwyl os byddwch chi'n gwneud cais am ac/neu'n derbyn addasiad i'ch tŷ yng Nghonwy.

Addasiad tŷ yw'r term a ddefnyddir ar gyfer addasiad ffisegol i'ch cartref sy'n eich helpu chi i fynd i mewn ac allan o'ch cartref, yn gwella sut rydych chi'n symud o fewn eich cartref ac yn eich galluogi i ddefnyddio cyfleusterau hanfodol yn ddiogel ym mhrif ardaloedd eich cartref.

Mae yna dri math o addasiad; Addasiad Bychan, Addasiad Canolig ac Addasiad Mawr.

Mae enghreifftiau o Addasiadau Bychain yn cynnwys:

Canllawiau cydio

Canllawiau ffon

Sêff Allweddi

Goleuadau
ychwanegol

Mae enghreifftiau o Addasiadau Canolig yn cynnwys:

Lifft grisiau

Cawod â mynediad
gwastad

Ystafell wlyb

Ramp

Mae enghreifftiau o Addasiadau Mawr yn cynnwys:

Estyniad

Lledu drysau

Lifft drwy'r llawr

Egwyddorion craidd

- Rydym wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaeth addasiadau tai sy'n canolbwyntio ar y cwsmer yng Nghonwy, er mwyn helpu pobl anabl ac/neu bobl hŷn i fyw yn fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.
- Bydd yr addasiad a ddarperir yn un angenrheidiol a phriodol, yn ogystal â bod yn rhesymol ac yn ymarferol.
- Bydd pob cwsmer yn cael eu trin yn deg a gyda pharch.



Os hoffech chi dderbyn y daflen hon ar ffurf arall, e.e. mewn Braille, print bras neu mewn iaith arall, cysylltwch â thîm Strategaeth Tai Conwy ar 01492 576274 /

HousingStrategy@conwy.gov.uk

Cyfathrebu

Gwneud cais am addasiad

- Gallwch wneud cais am addasiad tŷ drwy 'Un Pwynt Mynediad' mewn sawl ffordd:
 - (1) Defnyddio ein ffurflen ymholiadau ar-lein
 - (2) Ffonio 0300 456 1111 (dydd Llun i ddydd Iau rhwng 9.00am a 4.45pm, a dydd Gwener rhwng 9.00am a 4.15pm)

I'n helpu i ymdrin â'ch ymholiad yn effeithlon, byddwn yn disgwyl i chi ddarparu'r canlynol:

- Eich enw a'ch cyfeiriad
- Os ydych chi'n denant preifat, bydd angen i chi gael caniatâd eich landlord ar gyfer unrhyw waith addasu. Allwn ni ddim prosesu eich cais heb ganiatâd y landlord.
- Rhowch gymaint o wybodaeth i ni ag y gallwch chi i'n helpu i ddelio â'ch cais.

Ar ôl i chi gael eich atgyfeirio at Therapydd Galwedigaethol:

- Byddwn yn cynnig apwyntiad ar amser sy'n gyfleus i chi, er mwyn cynnal asesiad Therapydd Galwedigaethol/Asesydd Cymwys ac asesiad Technegol o'r eiddo (os bydd angen).
- Fe gewch chi wybod beth fydd canlyniadau'r asesiadau uchod.
- Os byddwch chi'n llwyddiannus, fe gewch chi wybod beth yw'r prif gamau ar gyfer gwneud yr addasiad, gan gynnwys amserlenni disgwylidig.
- Os penderfynwyd mai peidio ag addasu eich cartref yw'r dewis gorau i fodloni eich anghenion tymor hir chi, fe gewch chi wybod hynny yn ysgrifenedig a'ch gwahodd i drafod eich dewisiadau gyda'r adran/timau perthnasol.

Yn ystod y gwaith

- Fe gewch chi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'r gwaith yn datblygu yn rheolaidd.
- Gallai Swyddog gymryd lluniau 'cyn cychwyn' ac 'ar ôl gorffen' o'r gwaith a wnaed yn eich cartref er dibenion archwilio.

I'n helpu ni, rydym yn disgwyl i chi:

- Gysylltu â ni i roi diwrnod o rybudd os bydd angen i chi ganslo apwyntiad.
- Cadw pob anifail anwes a phlentyn draw oddi wrth yr ardal waith a chyfarpar peryglus.

Ar ôl y gwaith

Byddwn yn eich gwahodd chi i roi adborth ar ddiwedd y gwaith

Amserlenni disgwylidig

Addasiadau Bychain	Addasiadau Canolig (Ile nad oes angen caniatâd cynllunio)	Addasiadau Mawr (Ile mae angen caniatâd cynllunio)
Bydd yr addasiad yn cael ei wneud o fewn 4 wythnos i ddyddiad canfod yr angen fel arfer.	Bydd yr addasiad yn cael ei wneud o fewn 4 mis i ddyddiad canfod yr angen fel arfer.	Bydd yr addasiad yn cael ei wneud o fewn 12 mis i ddyddiad canfod yr angen fel arfer.
Ni fydd angen asesiad gan Therapydd Galwedigaethol. Efallai y bydd angen asesiad gan Asesydd Cymwys.	Bydd angen asesiad gan Therapydd Galwedigaethol/ Asesydd Cymwys.	Bydd angen asesiad gan Therapydd Galwedigaethol.
Nid yw'r addasiad yn ddibynnol ar brawf modd.	Gallai'r addasiad fod yn ddibynnol ar brawf modd.	Gallai'r addasiad fod yn ddibynnol ar brawf modd.

Ansawdd y Gwasanaeth

- Bydd y gwaith yn cael ei gyflawni gan unigolyn â chymwysterau addas fydd wedi cael achrediad TrustMark.
- Bydd contractwyr yn cadw at god ymddygiad.

Cod Ymddygiad Contractwyr

- Bydd y contractwyr yn cysylltu â chi ymlaen llaw i drefnu amser cyfleus i wneud y gwaith addasu.

Pan fyddan nhw'n cyrraedd, bydd y contractwyr yn:

- Ystyriol o denantiaid a thrigolion wrth barcio eu cerbydau.
- Cyflwyno eu hunain a dangos eu bathodynau adnabod i chi.
- Cadarnhau pa waith y maen nhw wedi dod i'w wneud.

Tra byddan nhw yn eich cartref, bydd y contractwyr yn:

- Eich trin chi gyda pharch ac yn ymddwyn yn briodol bob amser.
- Amddiffyn eich eiddo ac yn amharu cyn lleied ag y gallan nhw tra byddan nhw'n gweithio yn eich cartref.
- Clirio'r holl ddeunyddiau sydd dros ben ar ôl gorffen y gwaith.
- Rhoi gwybod i chi am y gwaith fydd yn cael ei wneud, gan gynnwys unrhyw ymweliadau dilynol.

NI fydd y contractwyr yn:

- Ysmygu
- Defnyddio iaith fras
- Chwarae radio na cherddoriaeth heb eich caniatâd
- Defnyddio eich toiled na'ch sinc ymolchi heb eich caniatâd
- Defnyddio eich trydan/ dŵr heb eich caniatâd

Nodwch: efallai yr hoffech chi ddefnyddio eich contractwr eich hun; ond os bydd cwsmer yn penderfynu defnyddio eu contractwr eu hunain i wneud y gwaith, cyfrifoldeb y cwsmer fydd delio ag unrhyw broblemau a'u datrys.

Ansawdd y cyfarpar

Bydd unrhyw gyfarpar fydd yn cael ei osod yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd a diogelwch a'r manylion technegol perthnasol, ac yn briodol i'w diben bwriadedig.

Fe gewch chi wybod am unrhyw warant, taliadau gwasanaeth a gofynion cynnal a chadw os bydd hynny'n briodol.

Monitro Safonau ein Gwasanaeth

Er mwyn sicrhau bod safonau ein gwasanaeth yn addas i'r diben a'n bod ni'n cadw atyn nhw, byddwn yn gofyn i gwsmeriaid sydd wedi defnyddio ein gwasanaeth addasiadau roi adborth drwy lenwi arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid ar ddiwedd y gwaith.

Bydd canlyniadau'r Arolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid yn cael eu monitro bob chwarter a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor, www.conwy.gov.uk, i ddangos i chi sut rydym ni'n perfformio.

Byddwn hefyd yn cynnal archwiliad o'r gwasanaeth unwaith y flwyddyn.

Cwynion a phryderon

Os nad ydych chi'n fodlon â lefel y gwasanaeth a gawsoch chi, rydym yn eich cynghori i gysylltu â thîm Gwasanaeth i Gwsmeriaid eich Darparwr Tai.

Os na allan nhw ddelio â'ch pryderon, fe allwch chi wneud cwyn swyddogol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

Ffôn: 01492 576070 (bydd galwadau i'r rhif hwn yn cael eu recordio)

E-bost: cwynion@conwy.gov.uk

Llythyr:

Yr Uned Gwynion
Blwch Post 1
Conwy
LL30 9GN

This document is also available in English.